



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Tîm Amddiffyn Iechyd
Health Protection Team

Ffôn/Tel: 0300 00 300 32

Ebost/Email: aware@wales.nhs.uk

Gwefan/Web:

www.iechydcyhoedduscymru.org

www.publichealthwales.org

Ref I15278

Date 25th November 2022

Annwyl riant/warcheidwad,

Cawsom ein hysbysu fod nifer bychan o blant sy'n mynd i Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail wedi cael diagnosis posibl o dwymyn goch.

Er mai salwch mwyn yw'r dwymyn goch fel rheol, dylid ei thrin â gwrthfotigau i isafu'r risg o gymhlethdodau a lleihau ei lledaeniad i eraill.

Mae **symptomau'r** dwymyn goch yn cynnwys dolur gwddw, cur pen, cyfog a chwydu. Yn dilyn hynny ceir brech goch fân a fydd yn ymddangos yn nodweddiadol i ddechrau ar y frest a'r stumog, gan ledaenu'n gyflym i rannau eraill o'r corff. Ar groen sydd â phigment tywyllach, gallai'r dwymyn goch fod yn anos ei gweld, ond dylai deimlo fel 'papur swnd'. Gall yr wyneb fod â gwridd ond yn welw o gwmpas y geg.

Os byddwch yn meddwl eich bod chi, neu eich plentyn, â'r dwymyn goch:

- Ewch i weld eich Meddyg Teulu neu cysylltwch â Galw Iechyd Cymru cyn gynted ag sydd bosib
- Gofalwch eich bod chi/eich plentyn yn cymryd y cwrs llawn o unrhyw wrthfotigau a ragnodir gan y meddyg.
- Arhoswch gartref, i ffwrdd o feithrinfa, ysgol neu waith am **o leiaf 24 awr ar ôl dechrau ar y driniaeth wrthfotigau**, i osgoi lledaenu'r haint.

Cymhlethdodau

Mae plant sydd wedi cael y **frech ieir** yn ddiweddar yn fwy tebygol o ddatblygu haint mwy difrifol yn ystod achos o'r dwymyn goch ac felly dylai rhieni fod ar eu gwylidwriaeth am symptomau fel twymyn uchel barhaus, llid yr isgroen (cellulitis) ac arthritis (poen a chwydd yn y cymalau). Os byddwch yn bryderus am unrhyw reswm ceisiwch gymorth meddygol ar unwaith.

Os oes gan eich plentyn gyflwr sylfaenol sy'n effeithio ar ei system imiwneidd, dylech gysylltu â'ch Meddyg Teulu neu feddyg ysbyty i drafod a oes angen cymryd unrhyw gamau ychwanegol.

Gellir cael gwybodaeth bellach hefyd gan y Tîm Diogelu Iechyd ar 0300 003 0032 yn ystod oriau swyddfa.

Yn gywir,

Samantha Phillips
Nyrs Diogelu Iechyd